

Pregeth Cymorth Cristnogol

Rhyw bythefnos yn ôl cefais lythyr gan ffrind yn Sri Lanka yn adlewyrchu ar yr agyfwng byd eang presennol. Oedd rhywun wedi sylwi, gofynnodd, pa mor od oedd hi ein bod yn siarad cymaint am 'bellhau cymdeithasol' mewn byd ble mae sawl math o 'bellhau cymdeithasol' wedi ei hadeiladu i mewn i'r ffordd y mae cymdeithasau wedi eu trefnu? Mae'r bywyd yr ydym yn ei dderbyn fel un normal, mewn gwirionedd yn fywyd ble mae gagendorau dwfn o wahaniad rhwng y rhai sy â'r adnoddau i reoli eu bywyd gyda mesur o ryddid a rheolaeth, a'r rhai sydd hebddynt. Mewn sawl cyddestun - ac nid yn unig yn y byd sy'n datblygu - gallwn weld cymunedau'n llythrennol fyw ochr yn ochr â'i gilydd, ond gyda'r bwlch mawr hwn rhyngddynt.

Un o agweddau dramatig y pandemig yr ydym yn byw trwyddo yw nad yw'r mathau cyfarwydd o bellhau cymdeithasol yn helpu fawr: tydi salwch ddim yn gwahaniaethu rhwng y cyfoethog a'r tlawd, ac fe rydym i gyd yn cael ein hatgoffa o'r cyfyngiadau sydd i'n rhyddid a'n gallu i reoli'r byd yr ydym yn byw ynddo. Ac eto, hyd yn oed yn y sefyllfa hon, ni allwn beidio â sylweddoli mewn ffordd anghyffyrddus iawn, bod lefel y risg yn amrywio. Rydym yn meddwl gyda diolchgarwch ac edmygedd am y rhai hynny oll sy'n gosod eu hunain mewn perygl dyddiol - gweithwyr iechyd a gofal wrth gwrs, ond hefyd pobl sy'n llenwi'r silffoedd a'r rhai sy'n casglu'r sbwriel; a meddylw'n hefyd am y rhai y mae cyfyngiadau'r cau i mewn yn eu gosod mewn risg o gam driniaeth, neu bwysau ar eu hiechyd meddwl bregus, neu'r galwadau cynyddol o ofalu am eraill yn y cartref.

Yr wythnos hon cawn ein gwahodd i ehangu ein gorwelion: a chofio'r rhai o amgylch y byd sydd â'r lleiaf o adnoddau i ymateb yn effeithiol i'r pandemig. Mae ein partneriaid Cymorth Cristnogol yn Affrica yn wynebu heriau na allwn prin eu dychmygu: cymdeithasau'n byw mewn amodau gorllawn amhosibl, cymunedau sydd heb ddŵr diogel ar gyfer ymolchi neu yfed, cymunedau ble na ellir dibynnu ar ofal iechyd sefydlog o unrhyw fath. Wrth i'r pandemig dynhau ei afael mewn amgylchedd o'r fath, mae economi gwledydd cyfan yn dechrau dadfeilio, mewn ffordd llawer mwy dramatig na'r effeithiau poenus a deimlwn ni yma yng ngwledydd Prydain ac Iwerddon. Rhan o stori'r 'pellhau cymdeithasol' yr ydym wedi ei oddef yn ein byd yw bod y diogelwch yr ydym ni'n ei gymryd yn ganiataol, hyd yn oed mewn argyfyngau - gofal iechyd, pensiynau, budd-daliadau diweithdra - yn brin mewn cymaint o gymdeithasau.

Felly wrth inni gadw at y pellhau cymdeithasol yr ydym ei angen er mwyn cadw'n ddiogel yn ein cartrefi a'n cymunedau yma, fe allwn hefyd feddwl am sut y gelwir arnom i gamu dros fath arall o bellhau cymdeithasol, fel ein bod yn cyd-sefyll gyda'r rhai sy'n wynebu llawer mwy o risg. Yn stori'r Samariad Trugarog, fe gawn ddarlun o person sy'n croesi mwy nag un bwlch o bellter cymdeithasol er mwyn dod â bywyd a gobaith i rywun oedd a'i fywyd mewn perygl. Rhaid iddo aros ar ffordd unig ble y gallai perygl fod yn llercian o hyd. Rhaid iddo gymryd amser a gofal, gan roi ei fwriadau a'i bryderon ei hun o'r neilltu er mwyn gweld yn ofalus ac yn feddylgar yr hyn sydd angen ei wneud. Ac yn fwy na dim, rhaid iddo bellhau ei hun oddi wrth ei ragfarn a'i elyniaeth tuag at ddieithryn - dyn y byddai wedi ei ddirmygu mewn sefyllfa wahanol ac wedi ei gyfrif yn elyn peryglus. Mae'n camu dros y pellter trwy roi pellter rhyngddo ef a'i ganfyddiad o ddioddefaint rhywun ar un llaw, a'r cymysgedd arferol o'r reddf i ddiogelu ei hun, a'r ofnau a'r casineb y mae wedi ei hetifeddu, ar y llaw arall. Mae gweithred y Samariad o achub bywyd ei gymydog Iddewig yn arwydd o sut y gallai'r byd fod, petai'r pellter a grëir gan ofn, anwybodaeth a rhagfarn yn cael ei ddileu; byd ble rydym yn rhydd i ymateb i anghenion ein gilydd gyda gweithred fuan a bwriadol.

Enw arall am fyd o'r fath yw Teyrnas Dduw. Yn sicr, ni ddown a hi i fodolaeth trwy bolisiau a rhaglenni; ond rydym angen chwilio'n barhaus am ffyrdd i ganiatáu i'w realiti ddod i'r amlwg, er mwyn herio'r 'pellhau cymdeithasol' yr ydym yn ei gymryd mor ganiataol. Yn rhyfedd, rydym yn

dysgu rhywbeth am hyn trwy'r amodau yr ydym yn byw gyda hwy. Rydym yn dysgu ymatal rhag derbyn pleser cysurol cwmni ac adloniant; yn dysgu talu sylw i'n harferon corfforol mewn ffordd newydd, gan ddod yn ymwybodol o'r pellter llythrennol sy rhyngom ni wrth inni siopa neu wneud ymarfer corff, wrth gofio golchi ein dwylo ac yn y blaen; ac rydym yn dysgu hefyd bwysigrwydd allweddol cymaint o swyddi di ramant yn y gwasanaethau cyhoeddus, y byddem ar goll hebddynt - swyddi sy'n cael eu cyflawni gyda phroffesiynoldeb anhunanol sy'n rhoi cefnlen sicr i'n holl bryderon ac ansicrwydd. Boed hynny'n weithiwr gwasanaeth iechyd sy'n gweithio'n gyson mewn uned gofal dwys, neu jest rhywun sy'n camu o'r neilltu ar lwybr troed er mwyn caniatáu i un arall fynd heibio wrth gadw'r pellter cywir, rydym yn cydnabod fod byw yn ystyriol - neu gydag ymwybyddiaeth ofalgar os hoffech chi - yn hytrach na jest caniatáu i'n cysur a'n cyfleuster ein hunain orchymyn popeth, yn rhywbeth sy'n rhoi bywyd.

Rydym yn parhau i fod yn nhymor y Pasg, yn dathlu ffaith ganolog ein ffydd. Mae'r Duw yr ydym yn ei addoli wedi dileu'r pellter rhwng nef a daear, gan amlygu gogoniant y bywyd dwyfol yng nghalon y methiant dynol a phoen yng nghroes Iesu Grist. Mae'r Duw yr ydym yn ei addoli yn rhoi grym a rhyddid inni gamu oddi wrth garchar canolbwyntio ar yr hunan; i wynebu gyda llawenydd a diolchgarwch harddwch disglair Duw, ac i wynebu gyda gonestrwydd a chariad anghenion brys creadigaeth Duw. Mae Iesu yn ei fywyd a'i farwolaeth yn pellhau ei hun oddi wrth ddiogelwch a hunan-obsesiwn; mae ei fywyd yn daith tuag at undod dyfnach a dyfnach gyda dynoliaeth yn eu poen a'u diymadferthedd. Ac yn y daith honno i galon ein tywyllwch, mae'n adnewyddu'r holl hil ddynol ac yn creu lefel newydd o gysylltiad â thosturi rhwng bodau dynol.

Felly mae'r dyddiau poenus yr ydym yn eu profi'n nawr yn rhoi cyfle inni feddwl eto am y ffordd yr ydym wedi methu sylwi pa mor bell yr ydym wedi llithro oddi wrth ein gilydd yn ein cymdeithas fyd eang, ac yn wir, yn ein gwlad ein hunain hefyd; i weld sut yr ydym wedi colli golwg ar addewid mawr digwyddiadau'r Groglith a'r Pasg – heb anghofio gweledigaeth y Pentecost, dyfodiad yr Ysbryd Glân sy'n dod â'r ddawn inni ddeall ieithoedd a diwylliannau gwahanol. Rydym wedi mynd i feddwl fod pellter yn normal, y pellter rhwng y cyfoethog a'r tlawd, y grymus a'r di-rym; ac nid ydym wedi darganfod yr egni yr ydym ei angen i herio hyn.

Wrth i'n cymdeithas ein hunain wynebu heriau mawr economi sy'n crebachu, bydd y pethau hyn o gonsyrn uniongyrchol inni i gyd - ond yn bennaf i bobl sy mewn swyddi ansicr, y rhai sy heb waith, yr oedrannus yr anabl a'r digartref. Felly hefyd ar y llwyfan rhyngwladol, fe gawn ni i gyd ein heffeithio gan y beichiau fydd yn disgyn ar y cenedloedd tlotaf ac sy wedi eu hamddiffyn lleiaf. Un peth y dylem fod wedi ei sylweddoli yng ngoleuni'r argyfwng hwn, mewn byd sy mor ryng-gysylltiol a symudol, does yr un broblem sy'n lleol yn unig; gall trychineb a chwalfa yn unrhyw le, yn sydyn iawn ddod yn broblem ar ein stepen drws ein hunain. Fel mae sawl un wedi dweud, ein gobaith gorau fel cymuned byd eang i atal pandemig marwol arall, un gwaeth o bosib na hwn, yw annog creu gofal iechyd effeithiol ym mhob gwlad a chreu ffyrdd rhyngwladol ac effeithiol er mwyn ymateb yn sydyn i argyfwng meddygol. Mae'n golygu peidio â pharhau i oddef anghydraddoldebau marwol sy'n condemnio cynifer i salwch ac anobaith.

Yn y pellhau cymdeithasol hwn a orfodwyd arnom, mae'r cyfle gennym i fyfyrion ar sut i ddysgu byw yn fwy cyson yn a thrwy gras y Duw sy'n dileu pellter, sy'n chwalu'r muriau o arwahanrwydd ac sy'n sy'n ein caru fel un teulu. Bydded i Dduw ein helpu i ymateb i'r her ac i'n dysgu i garu fel y mae e'n ein caru ni, gyda chariad nad yw byth yn methu yn ei barodrwydd i groesi trosodd, fel y Samariad Trugarog, i ble bynnag y mae dioddefaint ac ofn, gan adael y tu ôl inni'r culni yr ydym wedi caniatáu ein hunain i ddod i arfer ag ef. Nid yw cariad byth yn darfod na methu; bydded i ninnau beidio â methu'r alwad a'r cyfle a rydd cariad inni.